## CYFLWYNIAD

Mae'r Ffeil Ffeithiau hon yn darparu canllaw i ysgolion a chyrff llywodraethu ar:

(i) cynnwys statudol Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr yn seiliedig ar Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwr Ysgol (Cymru) 2001 a Chylchlythyr Canllaw 15/01:Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr – Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethol

(ii) y Cyfarfod Blynyddol Rhieni yn seiliedig ar (Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005

Er bod y Rheoliadau wedi dod i rym ym mis Medi 2001 a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi yn adolygu'r cylchlythyr, mae'r nifer fawr o ymholiadau i linell gymorth Llywodraethwyr Cymru wedi ein hannog i ysgrifennu'r ffeil ffeithiau hin sydd yn cynnwys yr adrannau canlynol:-

| | |
|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL | - Amseru |
| | - Dosbarthu |
| | - Cynnwys |
| CYFARFOD BLYNYDDOL RHIENI | - Esemptiadau |
| | - Rhagor o wybodaeth |

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir gynhyrchu adroddiad blynyddol i rieni. Mae manylion am y cynnwys statudol ar gael yn y canllaw hwn, er y gall Llywodraethwyr Cymru fodd bynnag ddewis ychwanegu gwybodaeth ychwanegol allai fod yn ddefnyddiol. Yr Adroddiad Blynyddol a'r cyfarfod yw'r prif ddull ffurfiol y gall corff llywodraethu arddangos eu hatebolrwydd i rieni. Maent yn rhoi cyfle i gysylltu â rhieni ynglŷn â'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol a hefyd rhannu cynlluniau'r corff llywodraethu ar gyfer hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol ac i ofyn barn rhieni ar gyfer y dyfodol.

# FFEIL FFEITHIAU 01/08

# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I RIENI/ CYFARFOD BLYNYDDOL RHIENI


**LLYWODRAETHWYR CYMRU**
**LLINELL GYMORTH:**
**0845 60 20 100**

Tŷ Empire, Llawr Cyntaf
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FN

Ffôn: 029 2048 7858
Ffacs: 029 2048 7843
E-bost:
contact@governorswales.org.uk


## AMSERU

Nid oes amser penodedig yn ystod y flwyddyn ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr. Ond, er mwyn cyd-fynd â gofynion gosod targedau anogir cyrff llywodraethu i gyhoeddi eu hadroddiadau yn yr Hydref. Rhaid darparu'r adroddiad blynyddol i rieni dim llai na phythefnos cyn y cyfarfod blynyddol lle y caiff yr adroddiad ei ystyried.

## DOSBARTHU

Gwerthfawrogir y gall cynhyrchu a dosbarthu'r adroddiad blynyddol llawn i'r holl rieni fod yn gostus i ysgolion. Mae'r Rheoliadau felly yn caniatáu i ysgolion ddarparu adroddiad llawn yn unig i'r rhieni sydd yn gofyn am gopi a chyhoeddi crynodeb ar gyfer yr holl rieni. Rhaid i gyrff llywodraethu ddweud wrth rieni sut y gallant gael gafael ar adroddiad llawn, ac mae'n rhaid iddo fod ar gael os yw rhieni'n gofyn am gael ei weld.

## CYNNWYS

Mae'r cynnwys statudol llawn ar gyfer yr adroddiad llawn a'r crynodeb ar gael yn Cylchlythyr Canllaw 15/01 sydd ar gael yn www.new.wales.gov.uk. Darperir rhestr wirio ddefnyddiol yn y ddogfen hon.

Cynnwys y Crynodeb o'r Adroddiad Blynyddol (mae enghreifftiau yn cynnwys):

- Manylion am y Cyfarfod Blynyddol Rhieni
- Manylion am aelodau'r corff llywodraethu
- Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau
- Gwybodaeth am bresenoldeb

Cynnwys yr Adroddiad Blynyddol llawn (yn ychwanegol at y wybodaeth sydd eisoes yn y

crynodeb o'r adroddiad blynyddol – mae enghreifftiau yn cynnwys):

- Datganiad ariannol llawn yn amlinellu incwm a gwariant yr ysgol;
- Gwaith a wnaethpwyd gan y corff llywodraethu/Ysgol e.e. adolygu polisïau ysgol, gweithredu ac adolygu strategaethau ysgol o ganlyniad i unrhyw gynigion a basiwyd gan y Cyfarfod Blynyddol Rhieni diwethaf;
- Crynodeb o'r newidiadau i lawlyfr yr ysgol ers ei gyhoeddi;
- Cynnydd ar gynllun gweithredu'r ysgol (yn dilyn arolwg);
- Dyddiadau tymhorau ac amseroedd sesiynau;
- Cynnydd mewn Chwaraeon;
- Gwybodaeth am Berfformiad a Thargedau;
- Rhai'n gadael ysgol uwchradd;
- Trefniadau ar gyfer derbyn a mynediad.

Mae'r cyfrifoldeb corfforaethol dros ysgrifennu'r adroddiad blynyddol yn fater i'r corff llywodraethu ac ni ddylai fod yn gyfrifoldeb ar y pennaeth yn unig. Yn aml bydd cyrff llywodraethu yn sefydlu gweithgor yn cynnwys ychydig o lywodraethwyr i baratoi drafft ar gyfer ei ystyried mewn cyfarfod. Mae hwn yn ymarferiad defnyddiol ac mae'n helpu i rannu'r llwyth gwaith yn ogystal â sicrhau 'perchnogaeth'.

## CYFARFOD BLYNYDDOL RHIENI

### ESEMPTIADAU

Mae esemptiadau i'r gofyniad i gynnal Cyfarfod Blynyddol Rhieni, sydd yn berthnasol am un flwyddyn yn unig, fel â ganlyn:-

Esemptiad ar gyfer ysgolion arbennig ysbytai ac ysgolion byrddio

Os yw'r ysgol wedi'i sefydlu mewn ysbyty neu os yw'n ysgol byrddio a gynhelir lle mae 50% neu ragor o'r disgyblion yn breswylwyr, gall y corff llywodraethu benderfynu nad yw'n ymarferol cynnal cyfarfod.

Esemptiad i ysgolion sy'n cynnal cyfarfod ar ôl arolygiad

Os oes cyfarfod i rieni wedi'i gynnal ar ôl arolwg ysgol i drafod adroddiad yr arolygydd cyn i'r corff llywodraethu cynhyrchu ei gynllun gweithredu.

Esemptiad i ysgolion sy'n cynnal cyfarfodydd eraill

Os yw'r corff llywodraethu wedi cynnal cyfarfod neu gyfres o gyfarfodydd lle mae'r holl rieni wedi eu gwahodd i o leiaf un o'r cyfres o gyfarfodydd, ac:

- mae 20% neu ragor o rieni disgyblion cofrestredig yn mynychu'r cyfarfod neu o leiaf un o'r cyfarfodydd;
- mae gan y rhieni y cyfle yn y cyfarfodydd hyn i drafod y dull y cafodd yr ysgol ei rhedeg, a'r dull y bydd yn cael ei rhedeg, a pherfformiad yr ysgol, ac
- mae tri neu fwy o lywodraethwyr yn y cyfarfod/cyfarfodydd.

Esemptiad os nad yw rhieni yn ymateb i hysbysiad o gyfarfod

Os oes llai na 5% o rieni disgyblion cofrestredig yn ymateb i hysbysiad a anfonwyd gyda'r adroddiad blynyddol yn gofyn i rieni a ydynt eisiau i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod. Nid yw'r esemptiadau hyn yn berthnasol os:

- na chafodd cyfarfod blynyddol rhieni ei gynnal yn y flwyddyn flaenorol, neu
- mae'r corff llywodraethu yn derbyn cais ysgrifenedig cyn 31 Mai yn y flwyddyn ysgol honno gan rieni o leiaf 5% o'r rhieni yn gofyn am gael cyfarfod blynyddol rhieni.

Y corff llywodraethu sydd yn gyfrifol am gynllunio a chynnal y cyfarfod gyda rhieni. Bydd angen iddynt:

1. cynllunio'r agenda;
2. penderfynu pwy fydd yn cadeirio'r cyfarfod (fel rheol Cadeirydd y corff llywodraethu);
3. pleidleisio ar unrhyw gynigion ac adrodd yn ôl ar unrhyw ystyriaethau a roddwyd i gynigion a basiwyd yn y cyfarfod diwethaf;
4. sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw.

Dylai'r Cyfarfod Blynyddol Rhieni annog trafodaeth ddefnyddiol, gan roi cyfle i rieni fynegi eu safbwynt a gwrando ar farn rhieni eraill (cyfeirer at y cefndir uchod). Gall fod yn ddefnyddiol gofyn i rieni gyflwyno unrhyw sylwadau ar feysydd yr hoffent eu codi cyn y cyfarfod.

**RHAGOR O WYBODAETH**

- Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 15/01: Adroddiadau Blynyddol y Llywodraethwyr – Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethol. Ar gael yn www.new.wales.gov.uk
- Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2001. Ar gael yn www.opsi.gov.uk ac www.llywodraethwyrcymru.org.uk
- Rheoliadau Cyfarfod Blynyddol Rhieni (Esemptiadau) (Cymru) 2005. Ar gael yn www.opsi.gov.uk ac www.llywodraethwyrcymru.org.uk
- Canllaw Llywodraethwyr Ysgolion i'r Gyfraith
- Llinell Gymorth Llywodraethwyr Cymru: **0845 60 20 100 (mae pob galwad ar raddfa leol)**

**D.S.:** Dylid darllen y Ffeil Ffeithiau hon ar y cyd gyda'r ddeddfwriaeth a'r canllaw a restrir uchod a gyda gwybodaeth a gynhyrchir gan eich AALl ac awdurdod esgobaeth lle mae hynny'n briodol.